

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru Adroddiad Blynyddol 2020 – 2021



Cynnwys

Rhagair		3
Adran 1	Amdanom ni	5
Adran 2	Perfformiad a Chynnydd	8
Adran 3	Ein Cwsmeriaid	23
Adran 4	Blaenoriaethau Busnes	24
Adran 5	Gwariant	25

Rhagair



Dyma fy 18fed Adroddiad Blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw i'r cyfnod rhwng mis Medi 2020 a mis Awst 2021.

Ar y cyd â phawb arall, mae hon wedi bod yn flwyddyn o addasu i'r normal newydd. Mae rhan o hynny'n golygu ein bod wedi parhau i gynnal gwrandawiadau rhithwir. Rydym wedi cynnal 48 gwrandawriad rhithwir yn ystod y cyfnod rhwng Mis Medi 2020 a mis Awst 2021. Nid ydym wedi gallu dychwelyd i gynnal unrhyw wrandawiadau wyneb yn wyneb, yn rhannol oherwydd yr anawsterau o sicrhau pellter cymdeithasol priodol a diogelwch

ein Cadeiryddion, ein haelodau a'n Hysgrifenyddiaeth, a fyddai'n gorfod teithio drwy wahanol ranbarthau yng Nghymru ar gyfer gwrandawiadau. Rydym yn cadw llygad barcud ar y sefyllfa, a byddwn yn ceisio dod â gwrandawiadau wyneb yn wyneb yn ôl ar gyfer ein hachosion cymhleth yn y dyfodol. O ran achosion llai cymhleth, byddwn yn parhau i glywed y materion hyn drwy wrandawiadau rhithwir yn y dyfodol. Mae ein hadborth yn dangos bod y gwrandawriad rhithwir yn gweithio'n dda, a bod partïon yn gyffredinol yn ei chael yn fwy cyfleus i beidio â gorfod teithio i leoliad, ac mae achwynwyr personol wedi mynegi bod cymryd rhan mewn gwrandawriad rhithwir tra byddant yn eu hamgylchedd eu hunain yn llai o straen.

Un o'r heriau yr ydym wedi'i hwynebu yn ystod y cyfnod hwn fu parhau i ddarparu hyfforddiant o safon i'n Cadeiryddion a'n haelodau. Yr unig ffordd y gellid gwneud hynny oedd drwy gynnal sesiynau hyfforddi rhithwir. Roeddwn yn ymwybodol y byddai hyfforddi grŵp mawr iawn yn rhithiol yn anodd os oedd gweithdy'n rhan o'r hyfforddiant, gan na ellid sicrhau y byddai modd i'r holl bartïon gyfranogi'n foddhaol. O ganlyniad, penderfynwyd os oedd elfen gyfranogol yn rhan o'r hyfforddiant, fel y ceir mewn gweithdai, y byddem yn cael dwy sesiwn hyfforddiant ar wahân ar gyfer y pynciau hynny. Felly, cawsom ddau ddigwyddiad hyfforddi ar wahân ar Gyfraith Gwahaniaethu ar sail Anabledd ym mis Rhagfyr 2020. Cynhaliwyd dau ddigwyddiad hyfforddi pellach ym mis Ebrill 2021 ar ragfarn wybyddol wrth farnu, ac ym mis Gorffennaf 2021 ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar Ddadansoddiad Ymddygiadol Cymhwysol (DYC).

Rydym wedi dechrau cofnodi achosion lle mae apelwyr yn gofyn am DYC fel darpariaeth y maent am ei chynnwys mewn datganiadau. Fodd bynnag, gan fod y ffigurau'n isel, nid wyf yn bwriadu adrodd arnynt eto. Byddaf yn parhau i fonitro'r sefyllfa, gyda'r bwriad o'u cyhoeddi os byddant yn dod yn ystadegol arwyddocaol.

Rwyf hefyd wedi bod yn ymwybodol iawn o'r angen i gynnal deialog agored gyda'n defnyddwyr. Unwaith eto, o ystyried y niferoedd, i sicrhau hynny mewn modd effeithiol, penderfynwyd cael dau grŵp o ddefnyddwyr. Gweithiodd hynny'n dda ac un o'r manteision a ganfuom oedd bod gennym gymysgedd o ddefnyddwyr o Ogledd a De Cymru yn y cyfarfod, ac roedd yn ddiddorol clywed eu safbwyntiau gwahanol.

Fel y soniais y llynedd, mae aelodau newydd wedi ymuno â'r Tribiwnlys. Unwaith eto, rydym wedi defnyddio'r ystafelloedd cyfarfod rhithwir i hyfforddi'r aelodau hyn. Cwblhaodd yr aelodau eu hyfforddiant cynefino ym mis Rhagfyr 2020 ac fel rhan o'r broses honno roeddent wedi cwblhau'r gofyniad i arsylwi ar wrandawiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rhagwelir y bydd eu holl hyfforddiant yn cael ei gwblhau ac y bydd ganddynt yr hawl i eistedd mewn achosion erbyn ein cyfnod adrodd nesaf.

Yn ystod y flwyddyn, gofynnwyd hefyd am ddatganiadau o ddiddordeb gan ein Cadeiryddion presennol ar gyfer swydd y Dirprwy Lywydd. Teimlwyd ers peth amser y dylai'r Tribiwnlys gael Dirprwy Lywydd ar waith, ac roedd hyn wedi'i gydnabod yn y ddeddfwriaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'n bleser gennyf adrodd bod Mr Allen wedi'i benodi. Gwn y bydd llawer o'n defnyddwyr yn adnabod Mr Allen o'u hymwneud â'r Tribiwnlys. Fe'i penodwyd yn Gadeirydd i'r Tribiwnlys ym mis Hydref 2003 ac mae'n Gadeirydd gwybodus a phrofiadol iawn i'r Tribiwnlys. Rwyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi i'w longyfarch a dymuno pob llwyddiant iddo yn ei rôl newydd.

Yn ystod y cyfnod hwn adolygwyd y Cyfarwyddyd Ymarfer mewn perthynas â bwndeli o ddogfennau ar gyfer gwrandawiaadau. Yn dilyn sylwadau gan yr Awdurdodau Lleol gwnaed diwygiadau i'r Cyfarwyddyd Ymarfer a oedd yn rhannu'r cyfrifoldeb am y gwaith paratoi yn effeithiol rhwng yr Awdurdodau Lleol a'r rhieni a gynrychiolwyd. Cafodd y Cyfarwyddyd Ymarfer ei gymeradwyo'n ffurfiol gan Brif Weinidog Cymru, ac fe ddaeth i rym ar 27 Rhagfyr 2020 am 6 mis arall ac fe'i hadolygwyd a'i gymeradwyo ymhellach gan y Prif Weinidog i'w roi ar waith tan rybudd pellach o 27 Mehefin 2021 ymlaen.

Mae'r flwyddyn wedi bod yn brysur hefyd o ran y goblygiadau i'r Tribiwnlys yn sgil gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (y Ddeddf). Mae'n siŵr y byddwch yn ymwybodol y bydd gweithredu'r Ddeddf yn dechrau o 1 Medi 2021, ond ni fydd y plant a'r bobl ifanc hynny sydd â datganiad presennol a'r rheini sy'n ôl-16 yn symud i'r system newydd ym mlwyddyn academaidd 2021 i 2022. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y dyddiad cychwyn ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny yn y blynyddoedd gorfodol o ran Gweithredu gan yr Ysgol a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ei newid ym mis Gorffennaf o fis Medi 2021 i fis Ionawr 2022. Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer newydd a Rheoliadau'r Tribiwnlys ym mis Mawrth 2021, a disgwylir iddynt ddod i rym ar 1 Medi 2021. Rydym wedi bod yn defnyddio'r amser hwn i ddod yn gyfarwydd â'r Cod a'r Rheoliadau newydd.

I gloi, mae hon wedi bod yn flwyddyn anodd iawn i'r rhan fwyaf o bobl, a newidiadau mawr yn cael eu gwneud i'w harferion gwaith. Mae staff, Cadeiryddion ac aelodau'r panel Ysgrifenyddiaeth wedi wynebu'r heriau hyn gyda brwdfrydedd, hiwmor da a hyblygrwydd. Rwyf yn hynod ddiolchgar am hyn ac am eu cefnogaeth a'u cymorth dibrid yn ystod y cyfnod hwn. Rhaid imi ddiolch hefyd i'n defnyddwyr am eu cymorth a'u hamynedd wrth gynorthwyo'r Tribiwnlys i barhau â'i fusnes yn ystod y flwyddyn. Rwy'n hyderus, gyda'r gefnogaeth barhaus hon, fod y Tribiwnlys mewn sefyllfa dda i wynebu heriau anochel y 12 mis nesaf.

Rhiannon Walker

Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru

Adran 1 – Amdanom ni

Yn yr adran hon:

- Sail TAAAC
- Swyddogaeth TAAAC
- Rheoliadau TAAAC
- Proses TAAAC
- Aelodau TAAAC
- Penodiadau
- Hyfforddiant
- Cysylltu â TAAAC
- Defnyddio TAAAC

Sail TAAAC

Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (TAAAC) yn dribiwnlys annibynnol a gafodd ei sefydlu yn 2003, dan Adran 333 (1ZA) o Ddeddf Addysg 1996. Mae TAAAC, aelodau ei dribiwnlysoedd a'u penderfyniadau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol (ALLau) ac mae ein penderfyniadau yn gyfreithiol rwymol. Llywodraeth Cymru sy'n ariannu TAAAC a'i gefnogaeth weinyddol.

Ers mis Ionawr 2015, mae plant a phobl ifanc wedi gallu cyflwyno eu hapêl neu hawliad eu hunain i TAAAC, hawl newydd nad yw'n effeithio ar hawliau presennol rhieni na gwarcheidwaid i gyflwyno apêl i TAAAC. Cyflwynwyd yr hawl newydd hwn gan Fesur Addysg (Cymru) 2009 a ddiwygiodd ddarpariaethau dan Ddeddf Addysg 1996.

Swyddogaeth TAAAC

Mae TAAAC yn gwranddo ac yn penderfynu ar apeliadau sy'n ymwneud â phlant ag anghenion addysgol arbennig. Rhieni sy'n gwneud yr apeliadau, sydd yn erbyn rhai penderfyniadau penodol y mae'r ALI wedi'u gwneud ynglŷn ag addysg plentyn. Mae TAAAC hefyd yn gwranddo ar hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabled mewn ysgolion yng Nghymru.

Rheoliadau TAAAC

Mae TAAAC yn gweithredu yn unol â'i reoliadau gweithdrefnol a deddfwriaeth gysylltiedig arall. Mae'r rheoliadau'n sicrhau bod bob achos a glywir gan TAAAC yn cael ei drin yn deg, yn gyson, yn brydlon ac yn gyfiawn. Maent yn sicrhau bod pawb sy'n dod gerbron TAAAC yn deall yn glir y camau mae'n rhaid iddynt eu dilyn er mwyn cyflwyno ffeithiau'r anghydfod a'r dadleuon perthnasol yn effeithiol i TAAAC. Maent hefyd yn sicrhau bod pob parti mewn achos yn deall dadleuon y parti arall ac yn gallu ymateb iddynt.

Mae gweithdrefnau TAAAC yn cael eu rheoli gan y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012.
- Deddf Addysg 1996.
- Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Mesur Addysg (Cymru) 2009.

Proses TAAAC

Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n awyddus i wneud hawliad neu apêl i TAAAC lenwi ac anfon y ffurflen gais berthnasol i TAAAC.

Mewn gwrandawriad TAAAC mae'r panel yn cynnwys Cadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol a dau Aelod o'r Panel Byd Addysg. Mae'r Aelodau o'r Panel Byd Addysg wedi cael eu penodi oherwydd eu harbenigedd a'u gwybodaeth am y byd addysg.

Fel arfer caiff gwrandawiadau TAAAC eu cynnal yn breifat mewn lleoliad sy'n agos at gartref y ceisydd.

Aelodau TAAAC

Yr Arglwydd Ganghellor sy'n gyfrifol am benodi ac ailbenodi Llywydd a Chadeiryddion. Gweinidogion Cymru sy'n penodi Aelodau'r Panel o Fyd Addysg.

Llywydd: Y Llywydd sy'n gyfrifol am reolaeth farnwrol gyffredinol y Tribiwnlys.

Dirprwy Benaethiaid Mae'r Dirprwy Lywydd yn cefnogi'r Llywydd ac yn cyflawni dyletswyddau'r Llywydd os nad yw'r Llywydd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, naill ai dros dro neu'n barhaol.

Cadeiryddion Rheolir gwrandawiadau'r tribiwnlys gan gadeirydd, ac mae'n rhaid bod ganddo gymhwyster cyfreithiol. Byddant yn ysgrifennu ac yn llofnodi penderfyniadau, rhoi gwybod am ohiriadau a phennu cyfarwyddiadau lle bo angen.

Aelodau'r Panel o Fyd Addysg Mae Aelodau'r Panel o Fyd Addysg yn dod ag ystod eang o brofiadau a gwybodaeth berthnasol i bob Gwrandawriad. Maent yn eistedd mewn achosion sy'n ymwneud ag Apeliadau Anghenion Addysgol Arbennig a Hawliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Yr Ysgrifenyddiaeth Yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gyfrifol am y gwaith gweinyddol o ddydd i ddydd, mae'n delio â'r holl waith papur rhagarweiniol ac yn prosesu ceisiadau i'r Tribiwnlys. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn ymgynghori â'r Llywydd ar unrhyw bwyntiau cyfreithiol sy'n codi yn ystod apeliadau neu hawliadau ac yn trosglwyddo Cyfarwyddiadau'r Llywydd yn ysgrifenedig i'r partion yn yr achos. Mae'r ysgrifenyddiaeth yn bwynt cyswllt ar gyfer y Llywydd, Aelodau a phartion yn yr achos ac mae clerics yn bresennol ym mhob gwrandawriad i sicrhau bod achosion yn mynd rhagddynt yn effeithlon.



Penodiadau

Penodwyd un o gadeiryddion presennol y Tribiwnlys i Ddirprwy Lywydd y Tribiwnlys a chafodd tri aelod arbenigol eu hailbenodi i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn ystod y cyfnod adrodd. Ymddiswyddodd un cadeirydd cyfreithiol ac ymddeolodd un aelod arbenigol yn ystod y cyfnod.

Hyfforddiant

Cynhaliodd y tribiwnlys sesiynau hyfforddi rhithwir ar gyfer ei aelodau yn ystod mis Rhagfyr 2020, Ebrill a Gorffennaf 2021.

Cysylltu â TAAAC

I gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth TAAAC:

Cyfeiriad TAAAC: Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
Blwch Post 100
Llandrindod
LD1 9BW

Llinell Gymorth TAAAC: 03000 259800

E-bost TAAAC: tribunal.enquiries@llyw.cymru

Defnyddio TAAAC

Mae TAAAC yn hapus i gyfathrebu â chi yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad oes neb sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, byddwn yn trefnu i aelod Cymraeg o staff eich ffonio chi'n ôl.

Gallwch ddewis cael cynnal eich gwrandawriad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Os nad Cymraeg na Saesneg yw eich iaith gyntaf a'ch bod yn dymuno siarad yn eich iaith gyntaf yn ystod y gwrandawriad, gallwn drefnu i gyfieithydd fod yn bresennol. Os oes angen dehonglydd iaith arwyddion i ddod i'r gwrandawriad, byddwn yn trefnu hynny.

Bydd darpariaeth yn cael ei wneud os bydd anabledd neu ofynion eraill o ran mynediad gennych chi, neu unrhyw un sy'n dod gyda chi i'r gwrandawriad, yn effeithio ar ein trefniadau ar gyfer y gwrandawriad.

Er mwyn gallu trefnu i gael dehonglwyd neu er mwyn darparu ar gyfer unrhyw anghenion ychwanegol sydd gan y mynychwyr, rhaid rhoi digon o rybudd i'r ysgrifenyddiaeth ymlaen llaw.

Adran 2 – Perfformiad a Chynnydd

Yn yr adran hon:

- Niferoedd ac ystadegau
- Data Gwrandawiadau
- Adolygiadau ac apeliadau pellach
- Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol
- Cwynion

Niferoedd ac Ystadegau


Mae blwyddyn Tribiwnlys yn rhedeg o fis Medi i fis Awst. Mae'r Tribiwnlys yn casglu'r data canlynol ar gyfer ystadegau:

Mathau o apeliadau yn ystod 2020-21, o'u cymharu â 2019-20	Siart 2.1	Tud 10
Apeliadau a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2020-21, o'u cymharu â 2019-20	Tabl 2.2	Tud 10
Apeliadau yn ôl awdurdod lleol yn ystod 2020-21, o'u cymharu â 2019-20	Tabl 2.3	Tud 11
Apeliadau yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl yn ystod 2020-21	Tabl 2.4	Tud 12
Apeliadau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol yn ystod 2020-21, o'u cymharu â 2019-20	Siart 2.5	Tud 14
Apeliadau yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl yn ystod 2020-21	Tabl 2.6	Tud 15
Apeliadau yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol yn ystod 2020-21	Tabl 2.7	Tud 16
Apeliadau yn ôl angen addysgol arbennig yn ystod 2020-21, o'u cymharu â 2019-20	Siart 2.8	Tud 17
Apeliadau yn ôl rhywedd yn ystod 2020-21	Siart 2.9	Tud 17
Apeliadau yn ôl tarddiad ethnig yn ystod 2020-21	Siart 2.10	Tud 18
Apeliadau yn ôl canlyniad 2020-21, o'u cymharu â 2019-20	Tabl 2.11	Tud 18
Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl yn ystod 2020-21	Tabl 2.12	Tud 19
Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn ystod 2020-21	Tabl 2.13	Tud 20
Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2020-21, o'u cymharu â 2019-20	Siart 2.14	Tud 21
Mathau o hawliadau yn ystod 2020-21, o'u cymharu â 2019-20	Tabl 2.15	Tud 21
Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2020-21, o'u cymharu â 2019-20	Siart 2.16	Tud 21

Tabl 2.1 – Mathau o apeliadau yn ystod 2020-21, o’u cymharu â 2019-20

Math o Apêl	2020-2021	2019-2020
Gwrthod Asesu	63	44
Gwrthod rhoi Datganiad	20	20
Gwrthod Ailasesu	0	1
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	7	23
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	28	24
Cynnwys Datganiad Rhan 3 yn unig	5	6
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	6	3
Cynnwys Datganiad Rhan 4 yn unig	9	17
Rhoi'r Gorau i Gynnal	1	1
Heb ei gofnodi	0	1
Cyfanswm	139	140

Siart 2.1 – Apeliadau a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2020-21, o’u cymharu â 2019-20, gan gynnwys y rheini a gafodd eu cario drosodd



Tabl 2.2 – Apeliadau yn ôl awdurdod lleol yn 2020-21, o’u cymharu â 2019-20

	2020-2021		2019-2020	
	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau	Nifer yr Apeliadau	Canran yr Apeliadau
Blaenau Gwent	1	1%	3	2%
Pen-y-bont ar Ogwr	3	2%	7	5%
Caerffili	3	2%	3	2%
Caerdydd	18	13%	17	12%
Sir Gaerfyrddin	7	5%	14	10 %
Ceredigion	2	1%	1	1%
Conwy	7	5%	5	4%
Sir Ddinbych	6	4%	4	3%
Sir y Fflint	2	1%	4	3%
Gwynedd	2	1%	5	4%
Merthyr Tudful	1	1%	1	1%
Sir Fynwy	3	2%	2	1%
Castell-nedd Port Talbot	0	0%	5	4%
Casnewydd	16	12%	15	11%
Sir Benfro	4	3%	8	6%
Powys	16	12%	16	11%
Rhondda Cynon Taf	16	12%	9	6%
Abertawe	10	7%	10	7%
Torfaen	4	3%	1	1%
Bro Morgannwg	15	11%	8	6%
Wrecsam	3	2%	1	1%
Ynys Môn	0	0%	1	1%
Cyfanswm	139	100%	140	100%


Tabl 2.3(i) – Apeliadau yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 1) yn 2020-2021

	Gwrthod Aseu	Gwrthod rhoi Datganiad	Gwrthod Ailasesu	Rhoi'r Gorau i Gynnal
Blaenau Gwent	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	2	0	0	0
Caerffili	1	0	0	0
Caerdydd	4	2	0	0
Sir Gaerfyrddin	4	1	0	0
Ceredigion	1	1	0	0
Conwy	1	5	0	0
Sir Ddinbych	3	0	0	0
Sir y Fflint	1	0	0	0
Gwynedd	0	1	0	0
Merthyr Tudful	1	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	0	0
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0
Casnewydd	11	0	0	0
Sir Benfro	2	0	0	0
Powys	6	7	0	0
Rhondda Cynon Taf	5	1	0	0
Abertawe	5	1	0	1
Torfaen	4	0	0	0
Bro Morgannwg	12	0	0	0
Wrecsam	0	1	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0
Cyfanswm	63	20	0	1

Tabl 2.3(ii) – Apeliadau yn ôl awdurdod lleol a'r math o apêl (Rhan 2) yn 2020-2021

	Cynnwys Rhannau 2 a 3	Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	Cynnwys Rhan 3	Cynnwys Rhannau 3 a 4	Cynnwys Rhan 4	Heb ei gofnodi
Blaenau Gwent	1	0	0	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	0	1	0	0	0	0
Caerffili	2	0	0	0	0	0
Caerdydd	2	7	0	1	2	0
Sir Gaerfyrddin	0	2	0	0	0	0
Ceredigion	0	1	0	0	0	0
Conwy	0	0	0	0	0	0
Sir Ddinbych	0	2	0	0	1	0
Sir y Fflint	0	0	0	0	1	0
Gwynedd	0	1	0	0	0	0
Merthyr Tudful	0	0	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	2	0	0	1	0
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0	0	0
Casnewydd	1	1	1	0	2	0
Sir Benfro	1	1	0	0	0	0
Powys	0	2	0	2	0	0
Rhondda Cynon Taf	0	2	3	3	1	0
Abertawe	0	2	1	0	0	0
Torfaen	0	0	0	0	0	0
Bro Morgannwg	0	2	0	0	1	0
Wrecsam	0	2	0	0	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	7	28	5	6	9	0

Siart 2.2 – Apeliadau am bob 10,000 o'r boblogaeth ysgol ym mhob awdurdod lleol yn 2020-21, o'u cymharu â 2019-20



Tabl 2.4 – Apeliadau yn ôl oedran ysgol a'r math o apêl yn 2020-2021


	Nifer yr apeliadau				
	Meithrin	Cynradd	Pontio Cynradd ¹	Uwchradd	Pontio Uwchradd
Gwrthod Asesu	2	43	6	10	0
Gwrthod rhoi Datganiad	1	12	2	6	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	0	6	0	1	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	0	10	8	10	0
Cynnwys Datganiad Rhan 3	0	3	2	0	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	0	3	0	3	0
Cynnwys Datganiad Rhan 4	0	0	3	6	0
Gwrthod Ailasesu	0	0	0	0	0
Rhoi'r Gorau i Gynnal	0	1	0	0	0
Heb ei gofnodi	0	0	0	1	0
Cyfanswm	3	78	21	37	0

¹ Pontio cynradd – blwyddyn olaf addysg gynradd cyn dechrau ysgol uwchradd


Tabl 2.5 – Apeliadau yn ôl oedran ysgol ac awdurdod lleol yn 2020-2021

	Nifer yr apeliadau				
	Meithrin	Cynradd	Pontio Cynradd	Uwchradd	Pontio Uwchradd
Blaenau Gwent	0	1	0	0	0
Pen-y-bont ar Ogwr	1	1	1	0	0
Caerffili	0	2	0	0	0
Caerdydd	0	9	6	4	0
Sir Gaerfyrddin	0	3	1	2	0
Ceredigion	0	2	0	0	0
Conwy	0	3	2	2	0
Sir Ddinbych	0	0	1	5	0
Sir y Fflint	0	1	1	0	0
Gwynedd	0	1	0	1	0
Merthyr Tudful	0	1	0	0	0
Sir Fynwy	0	2	0	1	0
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0	0
Casnewydd	0	10	2	3	0
Sir Benfro	0	3	1	0	0
Powys	0	10	0	7	0
Rhondda Cynon Taf	1	7	2	5	0
Abertawe	1	6	1	3	0
Torfaen	0	3	1	0	0
Bro Morgannwg	0	11	1	3	0
Wrecsam	0	2	1	0	0
Ynys Môn	0	0	0	0	0
Cyfanswm	3	78	21	37	0


Siart 2.3 – Apeliadau yn ôl angen addysgol arbennig yn 2020-21, o'u cymharu â 2019-20



Siart 2.4 – Apeliadau yn ôl rhywedd yn 2020-21



Siart 2.5 – Apeliadau a gofrestrwyd yn ystod 2020-21 yn ôl tarddiad ethnig



Tabl 2.6 – Ceisiadau yn ôl canlyniad 2020-21 (gan gynnwys apeliadau a gafodd eu cario drosodd), o’u cymharu â 2019-20

	2020-2021		2019-2020	
	Gwirioneddol	Canran	Gwirioneddol	Canran
Wedi’u caniatáu ²	49	26%	45	25%
Wedi’u tynnu’n ôl ³	47	25%	52	29%
Wedi’u cadarnhau’n llawn	8	4%	17	9%
Wedi’u cadarnhau’n rhannol	10	5%	14	8%
Wedi’u dileu	23	12%	21	12%
Ar y gweill ⁴	49	26%	31	17%
Cyfanswm	186	100%	180	100%

Tabl 2.7 – Apeliadau yn ôl canlyniad a math o apêl 2020-21

	Wedi’u caniatáu	Wedi’u tynnu’n ôl	Wedi’u cadarnhau’n llawn	Wedi’u cadarnhau’n rhannol	Wedi’u gwrthod/ Wedi’u dileu	Ar y gweill
Gwrthod Asesu	30	10	2	0	2	19
Gwrthod rhoi Datganiad	6	2	1	0	6	5
Gwrthod Ailasesu	0	0	0	0	0	0
Rhoi’r Gorau i Gynnal	1	0	0	0	0	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 2 a 3	1	1	1	1	0	3
Cynnwys Datganiad Rhannau 2, 3 a 4	0	8	2	3	1	13
Cynnwys Datganiad Rhan 3	1	4	0	0	0	0
Cynnwys Datganiad Rhannau 3 a 4	0	2	0	0	0	4
Cynnwys Datganiad Rhan 4	0	4	0	0	3	3
Cyfanswm	39	31	6	4	12	47

² Wedi’u caniatáu – caiff achosion eu caniatáu pan fydd ALI yn rhoi gwybod i’r Tribiwnlys nad yw’n gwrthwynebu’r apêl bellach ac mae wedi cytuno i wneud yr hyn mae’r apelydd wedi’i ofyn yn ei apêl.


³ Wedi’u tynnu’n ôl – bydd achosion yn cael eu tynnu’n ôl pan nad yw’r apelydd yn awyddus i barhau â’i apêl rhagor. Bydd apêl yn cael ei dynnu’n ôl drwy gydsyniad pan fydd y partion wedi dod i gytundeb a’r rhiant yn cytuno i dynnu ei apêl yn ôl ar sail diwygiadau y cytunwyd arnynt.

⁴ Ar y gweill – mae achos ar y gweill yn y tribiwnlys.

Tabl 2.8 – Apeliadau yn ôl canlyniad ac awdurdod lleol yn 2020-21

	Wedi'u caniatáu	Wedi'u tynnu'n ôl	Wedi'u cadarnhau'n llawn	Wedi'u cadarnhau'n rhannol	Wedi'u gwrthod/Wedi'u dileu	Ar y gweill
Blaenau Gwent	0	0	0	0	0	1
Pen-y-bont ar Ogwr	2	0	0	0	0	1
Caerffili	0	0	1	1	0	1
Caerdydd	4	2	0	1	0	11
Sir Gaerfyrddin	3	0	0	1	0	3
Ceredigion	1	0	0	0	0	1
Conwy	0	3	1	0	1	2
Sir Ddinbych	1	0	0	0	2	3
Sir y Fflint	1	1	0	0	0	0
Gwynedd	1	1	0	0	0	0
Merthyr Tudful	0	1	0	0	0	0
Sir Fynwy	0	0	0	0	1	2
Castell-nedd Port Talbot	0	0	0	0	0	0
Casnewydd	6	6	0	0	0	4
Sir Benfro	2	0	0	0	0	2
Powys	3	2	2	0	4	5
Rhondda Cynon Taf	2	5	2	0	2	5
Abertawe	6	4	0	0	0	0
Torfaen	1	0	0	0	0	3
Bro Morgannwg	6	6	0	0	1	2
Wrecsam	0	0	0	1	1	1
Ynys Môn	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	39	31	6	4	12	47


Siart 2.6 – Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd a ddaeth i law ac yr ymdriniwyd â nhw yn 2020-21, gan gynnwys y rheini a gafodd eu cario drosodd, o'u cymharu â 2019-20



Tabl 2.9 – Mathau o hawliadau a ddaeth i law yn ystod 2020-21 o'u cymharu â 2019-20

Math o hawliad	2020-2021		2019-2020	
	Nifer	Pwsent	Nifer	Pwsent
Derbyn i'r Ysgol	0	0%	2	13%
Addysg	7	78%	11	69%
Gwahardd	1	11%	3	13%
Heb ei gofnodi	1	11%	0	0%

Siart 2.7 – Hawliadau sy'n ymwneud ag achosion honedig o wahaniaethu ar sail anabledd yn ôl canlyniad yn 2020-21, gan gynnwys y rheini a gafodd eu cario drosodd, o'u cymharu â 2019-20



Data Gwrandawiadau

Yn ystod 2020-2021, rhoddwyd gwrandawriad i 56 o achosion, dyfarnwyd 4 achos ar sail gwrandawriad papur yn unig, a chynhaliwyd 48 o wrandawiadau rhithwir – a oedd yn golygu bod 66 o ddiwrnodau gwrandawiadau:

Y math o gwrs	Nifer y diwrnodau
Apêl	54
Hawliad	8
Papur	4 (Apêl)

Adolygiadau ac apeliadau pellach

Gall partion wneud cais i benderfyniad y Tribiwnlys gael ei adolygu ar sail gyfyngedig. A gall partion ofyn am ganiatâd y Tribiwnlys i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys os ydynt yn meddwl bod penderfyniad y Tribiwnlys yn anghywir o safbwynt y gyfraith.


Dros gyfnod yr adroddiad hwn, cafwyd 7 cais am Ganiatâd i Apelio i'r Uwch Dribiwnlys a chafwyd 2 gais cyfunol am Ganiatâd i Apelio ac i'r cais gael ei Adolygu. Gwrthodwyd 8 cais am Ganiatâd gan gynnwys gwrthod eu Hadolygu. Rhoddwyd 2 gais am Ganiatâd i Apelio i'r Uwch Dribiwnlys.

Cyflawni yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol

Er mwyn monitro pa mor effeithiol mae gwasanaethau'n cael eu darparu, mae gennym ddangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer mesur dwy agwedd allweddol ar ein busnes; sef cyflymder ein gwasanaeth ac ansawdd y gwasanaeth drwy foddhad cwsmeriaid.

Er mwyn mesur cyflymder ein gwasanaeth, mae gennym gyfres o ddangosyddion perfformiad sylfaenol sy'n seiliedig ar yr amser a gymerir i brosesu cais – o'r adeg y bydd cais yn cyrraedd i'r gwrandawriad neu pan fydd wedi'i gwblhau (gweler isod). Er mwyn mesur boddhad cwsmeriaid, defnyddiwyd dangosydd gennym sy'n deillio o arolygon cyfnodol ar foddhad cwsmeriaid a ddarperir wrth i achos ddod i ben (gweler adran 3).

Cyflymder ein gwasanaeth



Cwynion

Derbyniodd y Tribiwnlys 3 chwyn yn ystod y flwyddyn a'r penderfyniad oedd nad y Tribiwnlys oedd ar fai.

Adran 3 – Ein Cwsmeriaid

Yn yr adran hon:

- Arolwg boddhad cwsmeriaid

Arolwg boddhad cwsmeriaid

Mae'r Tribiwnlys yn ceisio ei orau i wella'r modd y darperir gwasanaethau cwsmeriaid a'r nod yw sicrhau bod ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn.

Caiff ein harolwg boddhad cwsmeriaid ei rannu ar ddiwedd achos. Mae canlyniadau'r arolwg yn ein galluogi i ddeall yn well beth yw anghenion ein cwsmeriaid, a bydd yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd llwyddiannus y Tribiwnlys, yn ogystal â thynnu sylw at y meysydd hynny y mae angen i'r Tribiwnlys eu gwella.

Rydym yn cydlynu'r wybodaeth ynghylch cyfathrebu a'r gwasanaeth, lefel boddhad o ran lleoliad y gwrandawriad, cymorth y staff a gwefan y tribiwnlys.

Adran 4 – Blaenoriaethau Busnes

Yn yr adran hon:

- Blaenoriaethau busnes ar gyfer 2020-2021

Mae'n bwysig bod TAAAC yn parhau i ddatblygu er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n defnyddwyr. Mae'r adran hon yn ymwneud â sut y bydd TAAAC yn adeiladu ar ei gyflawniadau drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau busnes a'n hymrwymiad i'n defnyddwyr.

- Cynllunio a chynnal digwyddiad hyfforddi i'r holl aelodau.
- Cynllunio a chynnal cyfarfodydd Grŵp Defnyddwyr yng ngogledd a de Cymru.
- Trefnu a chynnal gwerthusiadau ar gyfer yr holl aelodau.
- Parhau i fonitro a diweddarau gwefannau Tribiwnlys Addysg Cymru a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.
- Gwneud newidiadau i'r tribiwnlys a'i brosesau yn dilyn y newid i Dribiwnlys Addysg Cymru.
- Darparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon, bodloni dangosyddion perfformiad allweddol ac ymateb i adborth mewn arolygon boddhad cwsmeriaid.

Adran 5 – Gwariant

Yn yr adran hon, ein:

- Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol Ebrill 2020 i Fawrth 2021

Gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021

Cynnwys	Swm
Ffioedd a Threuliau'r aelodau ar gyfer achosion y tribiwnlys	£180,884
Digwyddiadau'r Tribiwnlys a chostau lleoliad gwrandawiadau	£6,068
Cyfanswm*	£186,952

* wedi'i dalgrynnu i'r £1 agosaf